**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-557
Ein cyf/Our ref: LG/00812/14

William Powell AC
Aelod Cynulliad dros y Canolbarth a'r Gorllewin
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

29 Awst 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-04-557 y Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio, a dderbyniwyd oddi wrth Mr David Grant sy'n ceisio adolygiad llawn o weithdrefnau, rheolaeth a gweinyddiaeth Tribiwnlys Prisio Cymru (VTW).

Mae'r VTW yn Gorff lled-farnwrol a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n hollol annibynnol ar Lywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Awdurdodau Lleol. Mae'n darparu gwasanaeth am ddim ac yn delio ag apeliadau sy'n ymwneud ag Ardrethi Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio. Mae gan y VTW swyddogaethau barnwrol a gweinyddol a bennir gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010.

Cynhaliwyd adolygiad llawn o Dribiwnlysoedd yng Nghymru gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (AJTC) yn 2010. Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw i'r angen am sicrhau bod tribiwnlysoedd a ddatganolwyd yn hygyrch i ddefnyddwyr ac yn darparu cyfiawnder yn deg, yn glir ac yn effeithlon. Gwnaed nifer o argymhellion gan yr adroddiad. Tynnir sylw at y rhain yn y Datganiad Ysgrifenedig yn y ddolen atodedig.

http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2010/270410trib/?lang=cy

Mae copi llawn o'r adroddiad i'w gael drwy ddilyn y ddolen isod.

http://ajtc.justice.gov.uk/welsh/publications.htm

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Gan mai Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw’r VTW mae mesurau wedi eu cymryd i sicrhau bod rheolau effeithiol ar waith.Mae Cytundeb Fframwaith yn ei le sy’n ymdrin â phriodoldeb o ran ei lywodraethu a’i atebolrwydd, ei drefniadau rheoli a’i gyfrifoldebau ariannol. Caiff y fframwaith hwn ei adolygu’n rheolaidd a chynhelir cyfarfodydd monitro rhwng swyddogion yn fisol. Ochr yn ochr â hyn, mae’r VTW yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol a blaen-gynlluniau gweithredol ar ei wefan. Mae dolen i’r wefan isod.

http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/publications.html

Hefyd, mae Cyngor Llywodraethu’r VTW yn ceisio gwella’r disgyblaethau rheoli a fabwysiadwyd gan y VTW, gan hybu diwylliant cryf o lywodraethu corfforaethol sy’n sicrhau bod proses, priodoldeb, craffu ac atebolrwydd priodol yn cael eu dangos a bod gweithdrefnau cyfrifol a chadarn yn eu lle. Ochr yn ochr â’r holl drefniadau hyn, mae’r VTW hefyd yn cael ei ddal yn atebol i Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

O ganlyniad, Rwy’n hyderus fod y VTW yn darparu gwasanaeth effeithiol a thryloyw i bobl Cymru.



**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business